



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru

Dyddiad cyhoeddi: 25 Ebrill 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Mehefin 2018

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Trosolwg

Fel rhan o amrywiaeth o ganllawiau i gynorthwyo â gwella ansawdd aer, mae Llywodraeth Cymru'n gofyn am farn ar fframwaith arfaethedig ar gyfer Parthau Aer Glân yng Nghymru.

Parth Aer Glân yw ardal lle cymerir camau wedi'u targedu i wella ansawdd yr aer.

Sut i ymateb

Er mai fframwaith drafft i Gymru yw hwn, rydym yn croesawu ymatebion oddi wrth bawb sydd â buddiant, yng Nghymru a'r tu allan.

Gellir rhoi adborth yn y ffyrdd canlynol:-

Ar lein - Llenwch y ffurflen ymateb ar-lein sydd ar gael ar:

<https://beta.gov.wales/consultations>

e-bost – Llenwch yr holiadur yng nghefn y ddogfen hon a'i anfon at:

AirQualityPolicy@gov.wales

Post – Llenwch yr holiadur yng nghefn y ddogfen hon a'i anfon at:

Yr Ymgynghoriad ar Fframwaith Parthau Aer Glân

Tîm Ansawdd Aer

Llywodraeth Cymru

3^{ydd} Llawr, Adain y De (C03)

Adeiladau'r Goron

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

**Rhagor o
wybodaeth a
dogfennau
cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon
mewn print bras, mewn Braille neu mewn
ieithoedd eraill.**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>

Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol
<http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>

Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi
<http://gov.wales/topics/businessandconomy/welsh-economy/economic-action-plan/?lang=cy>

UK Plan for Tackling Roadside Nitrogen Dioxide
Concentrations
<https://www.gov.uk/government/publications/air-quality-plan-for-nitrogen-dioxide-no2-in-uk-2017>

Clean Air Zone Framework for England
<https://www.gov.uk/government/publications/air-quality-clean-air-zone-framework-for-england>

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

ffôn: 03000 256379

e-bost: AirQualityPolicy@gov.wales

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny mewn ysgrifen wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhagair gan y Gweinidog

Ceir llygredd aer pan gaiff sylweddau niweidiol neu wenwynig eu gollwng i'r aer a anadlwn, gan achosi salwch a gwaethygu problemau iechyd sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â chyfrannu at gynyddu cyfraddau marwolaethau.

Cymerir camau ledled y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael, ac rwyf wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â Chynllun Aer Glân i Gymru eleni. Fel rhan o'r Cynllun, mae'r Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru yn adlewyrchu ein hymrwymiad cryf i ostwng lefelau allyriadau niweidiol a gwella iechyd a lles cymunedau yng Nghymru.

Mae nifer fawr o ffynonellau ansawdd aer gwael, gan gynnwys rhai mathau o weithgarwch ffermio ac adeiladu, trafnidiaeth, cynhyrchu ynni a gwresogi. Mae rhai prosesau diwydiannol yn cynhyrchu cyfansoddion organig anwedol, mae amaethyddiaeth yn un o ffynonellau arwyddocaol amonia (NH_3), mae cynhyrchu ynni'n gyfrifol am lawer iawn o'r sylffwr deuocsid (SO_2) yn yr aer, ac mae trafnidiaeth yn cynhyrchu ocsidau nitrogen (NO_x) a deunydd gronynnol ($\text{PM}_{2.5}$) ymysg amrywiaeth o lygryddion eraill.

Un ffordd effeithiol o fynd i'r afael â gormod o allyriadau llygryddion a gludir yn yr aer, mewn mannau lle mae problemau penodol, yw cyflwyno Parth Aer Glân. Wedyn caiff ystod benodol o gamau gweithredu eu targedu yn yr ardal er mwyn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r problemau sydd wedi'u nodi o ran ansawdd yr aer, gyda'r nod o sicrhau gwelliant amlwg a pharhaus o fewn amserlen fer. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Barthau Aer Glân yng Nghymru.

Mae'n bleser gennyf yn awr gyflwyno fersiwn ddrafft y Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru, a fydd yn cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu Parthau Aer Glân lle bynnag y bo eu hangen yng Nghymru. Rwy'n croesawu barn ar y Fframwaith arfaethedig ac yn annog unrhyw un sydd â chyfraniad i'w wneud i ymateb. Bydd yr ymgynghoriad ar agor am chwe wythnos, a chaiff y Fframwaith ei gyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf ynghyd ag adroddiad ar y cyngor a gafwyd trwy'r ymarfer hwn.

Hannah Blythyn AC
Gweinidog dros yr Amgylchedd

Crynodeb gweithredol

- Mae'r Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru'n darparu canllawiau i awdurdodau lleol sy'n ystyried opsiynau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer yn lleol.
- Mae'r Fframwaith yn disgrifio beth yw Parth Aer Glân, o dan ba amgylchiadau y gellir ei ddefnyddio, a hefyd y prif ystyriaethau i Awdurdodau Lleol sydd eisiau sefydlu un.
- Gall y sbardunau i leihau llygredd a gludir yn yr aer, trwy Barth Aer Glân, gynnwys yr angen i leihau allyriadau nes eu bod o fewn y terfynau cyfreithiol, ond hefyd yn fwy cyffredinol sicrhau gwelliannau yn yr amgylchedd a gwell iechyd i bawb.
- Gan fod traffig ffyrdd yn un o ffynonellau arwyddocaol llygredd a gludir yn yr aer, bydd ar Barth Aer Glân angen rhywfaint o gyfyngiad ar fynediad cerbydau, naill ai trwy waharddiad llwyr ar fynediad i'r ardal i gerbydau nad ydynt yn cydymffurfio, neu drwy godi tâl am fynediad cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio.
- Dylid hefyd ystyried ffynonellau eraill ansawdd aer gwael, a bydd Parth Aer Glân cynhwysfawr yn ceisio sicrhau lleihad yn yr holl allyriadau niweidiol.
- Gofynnir am farn, erbyn 19 Mehefin 2018, ar gynnwys y Fframwaith a'r cynigion ynghylch sut y dylid defnyddio Parthau Aer Glân yng Nghymru.
- Gellir gweld fersiwn ddrafft y Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru ar wefan ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar <https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>.
- Caiff fersiwn derfynol y Fframwaith ei chyhoeddi, a'i hanfon at awdurdodau lleol, ar 31 Gorffennaf 2018.

Cefndir deddfwriaethol

- Mae'r cyfrifoldeb am sicrhau cydymffurfiaeth â gwerthoedd terfyn ansawdd aer wedi'i ddatganoli yn y Deyrnas Unedig i'r gweinyddiaethau cenedlaethol.
- Mae proses rheoli ansawdd yr aer yn lleol yn gosod rhwymedigaeth ar bob awdurdod lleol i adolygu ac asesu ansawdd yr aer yn ei ardal yn rheolaidd, ac i benderfynu a yw'r amcanion ansawdd aer yn debygol o gael eu cyflawni ai peidio.
- Lle bernir bod gormodiannau'n debygol, wedyn mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer a pharatoi Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer yn nodi'r mesurau mae'n bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn mynd ar ôl yr amcanion.
- Mae'r gofynion ar gyfer proses rheoli ansawdd yr aer yn lleol wedi'u nodi yn Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd (1995), y Strategaeth Ansawdd Aer i Loegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon 2007 a'r dogfennau Polisi a Chanllawiau Technegol perthnasol.
- Mae Cyfarwyddeb 2008 ar Ansawdd Aer yr Amgylchedd (2008/50/EC) yn gosod terfynau cyfreithiol rwymol ar gyfer crynodiadau o lygryddion aer o bwys sy'n cynnwys; plwm, nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol, sylffwr deuocsid, bensen, carbon monocsid, hydrocarbonau aromatig polysyglig, osôn, a rhai metelau trwm gwenwynig penodol.
- Mae'r Gyfarwyddeb yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru trwy Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010.

Y cefndir i'r ymgynghoriad hwn

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i wella ansawdd aer ledled Cymru. Mae ein hamcanion ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn cynnwys hybu iechyd da a lles i bawb, a meithrin cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell.
- Mae mynd i'r afael â lefelau nitrogen deuocsid (NO₂) wedi creu her sylweddol mewn rhai ardaloedd trefol. Yn y *UK Plan for tackling roadside nitrogen dioxide concentrations* (2017) dywedasom ein bod yn bwriadu ymgynghori ar y manylion ar gyfer Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru.
- Bwriedir i'r Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru sicrhau y caiff Parthau Aer Glân eu rhoi ar waith yn effeithiol, lle bynnag y bo eu hangen, a sicrhau rhywfaint o gysondeb yn y ffordd y cânt eu rhoi ar waith.
- Er nad oes unrhyw Parthau Aer Glân yng Nghymru ar hyn o bryd, mae gwaith ar y gweill i'w datblygu mewn nifer o drefi a dinasoedd yn Lloegr. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi ymrwymo i weithio gydag awdurdodau lleol i gyflwyno Parthau Allyriadau Isel yn y pedair dinas fwyaf yn y wlad.
- Nid oes unrhyw ofyniad penodol i unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru gyflwyno Parth Aer Glân. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol yn dewis cyflwyno Parth Aer Glân er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer yn lleol, pa un o ganlyniad i ormodiannau cyfreithiol neu fel rhan o raglen gwella iechyd er mwyn mynd i'r afael ag aer gwael.
- Nid sicrhau cydymffurfiaeth â'r terfynau cyfreithiol ar gyfer allyriadau NO₂ yw unig ddiben Parth Aer Glân, sydd â'r nod yn y pen draw o sicrhau gostyngiad yn lefel yr holl lygryddion niweidiol a gludir yn yr aer, o bob ffynhonnell, yn yr ardal lle caiff ei ddatgan.

Y cwestiynau yr hoffem eu gofyn ichi

Mynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer

Mae rheoli ansawdd aer yn flaenoriaeth ym maes iechyd y cyhoedd. Mae cymryd camau i wella ansawdd aer i bawb yng Nghymru'n un o'r prif heriau yr ydym yn eu hwynebu wrth gyflawni ein hamcanion o dan y ddeddfwriaeth amgylcheddol gyfredol a'n huchelgeisiau ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae rheoli nitrogen deuocsid wedi creu her benodol, gan fod y lefelau mewn rhai ardaloedd yng Nghymru'n uwch na'r terfynau cyfreithiol. Nod y cynnig ynghylch Parthau Aer Glân yw lleihau'n sylweddol gysylltiad pobl â llygryddion niweidiol a gludir yn yr aer.

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y byddai Parthau Aer Glân yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â heriau ansawdd aer yng Nghymru?

Gofyniad i gyflwyno Parth Aer Glân

Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw awdurdod lleol gyflwyno Parth Aer Glân. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd awdurdod lleol yn penderfynu datblygu un er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer yn lleol, pa un o ganlyniad i ormodiannau cyfreithiol neu fel rhan o raglen gwella iechyd er mwyn mynd i'r afael ag aer gwael. Ar hyn o bryd mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Caerdydd wedi cael eu cyfarwyddo i lunio opsiynau i sicrhau cydymffurfiaeth â gwerthoedd terfyn statudol ar gyfer nitrogen deuocsid yn yr amser byrraf posibl. Caiff Parth Aer Glân ei ystyried fel rhan o'r broses hon a bydd yn rhaid ei gyflwyno os bydd tystiolaeth yn dangos mai hwn fyddai'r ymateb mwyaf effeithiol.

Lle bo awdurdod lleol wedi datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, gellid ystyried Parth Aer Glân er mwyn sicrhau gwelliannau sylweddol yn ansawdd yr aer, lle gallai hyn fod yn ffordd addas o wneud hynny.

Cwestiwn 2 – A ddylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i gyflwyno Parth Aer Glân, ac, os felly, o dan ba amgylchiadau ddylai hi wneud hynny?

Opsiynau ar gyfer lleihau allyriadau

Mae adran 5 o'r Fframwaith yn rhoi crynodeb o ystod o opsiynau posibl y gellid eu hystyried fel rhan o strategaeth Parth Aer Glân er mwyn gostwng lefelau llygredd a gludir yn yr aer. Wrth gynllunio Parth Aer Glân, ni ddylid ystyried yr opsiynau hyn yn unig, ond disgwylir i awdurdodau lleol ystyried buddion posibl pob un o ran eu gallu tebygol i gyfrannu at leihad cyffredinol mewn allyriadau niweidiol. Gallai Parth Aer Glân gynnwys llawer o'r elfennau a nodir yn yr adran hon.

Cwestiwn 3 – Ydych chi o'r farn bod yr opsiynau/cyngor yn adran 5 yn elfennau addas ac effeithiol o Barth Aer Glân?

Safonau allyriadau cerbydau

Mae trafndiaeth yn gyfrifol am gyfran fawr o lygredd aer mewn trefi a dinasoedd. Felly bydd angen i Barth Aer Glân ddarparu ffordd o reoli mynediad cerbydau. Mae cyfyngu ar fynediad

i'r holl gerbydau heblaw'r rhai glanaf yn darparu ffordd o fynd i'r afael ag allyriadau o drafnidiaeth trwy dargedu'r llygrwyr gwaethaf. Mae'r Safonau Allyriadau Ewropeaidd yn darparu ffordd eglur o adnabod y cerbydau a ddylai, ac na ddylai, gael mynediad dilyffethair i Barth Aer Glân. Defnyddir y Safonau Allyriadau Ewropeaidd yn y *Principles for setting up Clean Air Zones in England*, a hefyd yn y cynnig ar gyfer Parthau Allyriadau Isel yn yr Alban.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno y dylai'r safonau allyriadau isaf a nodir yn Atodiad 2 i'r Fframwaith Parthau Aer Glân gael eu defnyddio i bennu mynediad cerbydau ffordd mewn Parthau Aer Glân yng Nghymru, ac y dylid tynhau'r safonau hyn dros amser er mwyn cymhwyso data mwy trylwyr am allyriadau yn y byd go iawn?

Categoriâu o gerbydau sy'n cael eu cynnwys yn safonau allyriadau Parthau Aer Glân

Mae'r safonau allyriadau yn Atodiad 2 yn nodi'r gwahanol gategoriâu o gerbydau, a chynigir y bydd y cyfyngiadau'n berthnasol i unrhyw gategori o gerbyd. Byddai hyn yn sicrhau'r effaith fwyaf posibl yn ogystal â thriniaeth deg. Mae'r cynnig hwn yn wahanol i'r ffordd y mae Parthau Aer Glân yn cael eu defnyddio yn Lloegr, lle caiff Awdurdodau Lleol gymhwyso cyfyngiadau ar fynediad i gategoriâu penodol o gerbydau yn ôl pedwar opsiwn. Mae'r rhain yn dechrau gyda Dosbarth A, sy'n berthnasol i fysiau, coetsis, tacsis a cherbydau hurio preifat yn unig, hyd at Ddosbarth D, gan ychwanegu categorïau ychwanegol o gerbydau yn gynyddol. Yng Nghymru, cynigir y bydd Awdurdodau Lleol yn cael hyblygrwydd llwyr ar draws y categorïau o gerbydau. Ble bynnag, bydd rhaid i'r dewision gyflwyno lleihad mewn llygredd awyr i gyfarfod gofyniadau statudol a dangos sut mae nodau lles yn cael eu cyflawni.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno y dylai Awdurdodau Lleol gael hyblygrwydd i dargedu ond y cerbydau hynny sydd yn achosi y llygredd gwaethaf yn lleol neu a ddylai cyfyngiadau ar fynediad traffig fod yn berthnasol i'r holl gategoriâu cerbydau, lle bynnag y caiff Parthau Aer Glân eu cyflwyno yng Nghymru? cerbydau hynny sy'n peri'r problemau mwyaf o ran llygredd aer yn lleol?

Yr amserau y bydd cyfyngiadau ar fynediad yn berthnasol

Mae'n bosibl y bydd Awdurdodau Lleol eisiau gweithredu cyfyngiadau Parth Aer Glân ar ddiwrnodau penodol a/neu ar adegau penodol o'r dydd yn unig. Gellid penderfynu ar yr amserau y bydd cyfyngiadau'n berthnasol yng nghyd-destun lliniaru effaith Parth Aer Glân ar fusnesau a'r cyhoedd er ar yr un pryd, yn hollbwysig, sicrhau bod y lleihad a ddisgwyllir mewn allyriadau'n gyflawnadwy, man lleiaf.

Cwestiwn 6 – A ddylai fod gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i amrywio'r amserau y dylai cyfyngiadau Parthau Aer Glân fod ar waith, neu a fyddai eu rhoi ar waith amser llawn yn darparu'r ateb mwyaf dymunol o ran ymdrin â heriau ansawdd aer?

Lleihau mynediad trwy godi tâl

Nid yw'r Fframwaith drafft yn pennu a ddylid gwahardd cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio o Barth Aer Glân yn llwyr, neu a ddylid caniatáu mynediad os telir ffi. Gellid dadlau y byddai gwaharddiad llwyr yn cael yr effaith fwyaf ar leihau allyriadau cerbydau, ond byddai'n dod â'r costau mwyaf i unigolion a busnesau, y byddai angen iddynt ymaddasu, o bosibl trwy orfod prynu cerbydau newydd neu osod technoleg lleihau llygredd. Byddai Parthau Aer Glân

Ile codir tâl yn caniatáu mynediad i'r cerbydau sy'n llygru mwyaf, lle caiff y ffi benodedig ei thalu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi nodi mai Parthau Aer Glân lle codir tâl yw'r mesur y gall ei fodelu a fydd yn sicrhau gwerthoedd terfyn statudol ar gyfer nitrogen deuocsid mewn trefi a dinasoedd yn yr amser byrraf posibl.

Cwestiwn 7 – A ddylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau ar gyfer mynnu naill ai strwythur codi tâl neu beidio â chodi tâl ar gyfer Parthau Aer Glân yng Nghymru, neu a ddylid gadael hyn i awdurdodau lleol benderfynu arno, gan ddibynnu ar dystiolaeth ynghylch pa un o'r ddau fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau llygredd a gludir yn yr aer yn lleol?

Codi tâl ar ran o Barth Aer Glân

Fel dewis arall yn lle gosod gwaharddiad llwyr ar gerbydau nad ydynt yn cydymffurfio, neu Barth Aer Glân lle codir tâl, mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol eisiau ystyried codi tâl ar ran ohono. Byddai hyn yn darparu ar gyfer gwaharddiad yng nghanol y Parth Aer Glân ar gerbydau nad ydynt yn cydymffurfio, ac ar yr un pryd codi tâl i alluogi cerbydau o'r fath i barhau i deithio yn y rhannau allanol. Gallai hyn ddod â nifer o fanteision mewn Parth Aer Glân newydd megis rhoi amser i ddefnyddwyr y ffyrdd ymaddasu, a darparu enghraifft ymarferol o'r buddion a fyddai'n deillio o waredu'r cerbydau sy'n llygru mwyaf o'r ffyrdd. Dros amser gellid lleihau'r ardal lle codir tâl wrth i gyfyngiadau ar fynediad gael eu tynhau er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd yr aer ledled y Parth Aer Glân.

Cwestiwn 8 – A fyddai codi tâl ar ran o Barth Aer Glân yn dod ag unrhyw fanteision dros y dewisiadau eraill, sef gwaharddiad llwyr ar gerbydau nad ydynt yn cydymffurfio, neu system o godi tâl ledled y Parth Aer Glân?

Lefel y taliadau, lle cânt eu codi

Lle caiff Parth Aer Glân lle codir tâl ei gyflwyno, dylai lefel y taliadau fod yn ataliol a dylent hybu newid ymddygiad. Dylai gwahanol lefelau taliadau fod yn berthnasol ar draws y gwahanol gategoriâu o gerbydau yn ôl eu heffeithiau ar ansawdd aer. Wrth bennu taliadau, dylid hefyd ystyried costau gweithredu'r cynllun, a sut y gellid ail-fuddsoddi unrhyw refeniw dros ben mewn mesurau i wella ansawdd aer ymhellach.

Cwestiwn 9 – A ddylai awdurdodau lleol fod â hyblygrwydd llawn i bennu lefel unrhyw daliadau mynediad y maent yn eu codi, neu a ddylai Llywodraeth Cymru bennu meini prawf cenedlaethol i awdurdodau lleol gyfeirio atynt?

Esemptiadau

Mewn amgylchiadau cyfyngedig, mae'n bosibl y bydd esemptiadau i rai cerbydau penodol, neu rai grwpiau o yrwyr, lle byddai'n afresymol disgwyl cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran mynediad. Byddai esemptiadau o'r fath yn galluogi gywyrwr i fynd i mewn i Barth Aer Glân heb orfod talu taliadau am wneud hynny. Byddai angen gwneud cais ffurfiol am esemptiad, a byddai angen iddo gael ei ganiatáu, er mwyn bod yn ddilys, a dylid ei adolygu o dro i dro er mwyn sicrhau bod y rhesymau gwreiddiol dros yr esemptiad yn dal i fod yn berthnasol. Rhoddir rhestr o esemptiadau arfaethedig yn atodiad 3, ac mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol yn ystyried esemptiadau dewisol ychwanegol lle bo rhesymau cryf dros wneud hynny.

Cwestiwn 10 – Ydych chi'n cytuno â'r cerbydau a chategoriâu gywyrwr arfaethedig a ddylai gael esemptiad rhag bodloni'r gofynion cyhoeddus o ran mynediad mewn Parth Aer Glân?

Ffynonellau llygredd a gludir yn yr aer nad ydynt yn gysylltiedig â thraffig

Er bod cerbydau sy'n teithio ar y ffyrdd yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd aer gwael mewn ardaloedd trefol, mae llygredd aer yn deillio o lawer o ffynonellau eraill. Wrth ddatblygu Parth Aer Glân, dylai awdurdodau lleol ystyried ystod lawn y ffynonellau llygredd aer a sŵn amgylcheddol (nid rhai sy'n gyfyngedig i ddefnydd o'r ffyrdd).

Cwestiwn 11 – Ydych chi'n meddwl bod digon o ystyriaeth wedi cael ei rhoi i ffynonellau llygredd aer heblaw ffyrdd yn y Fframwaith?

Y gallu i gael gwybodaeth am Barth Aer Glân

Mae'n hanfodol i wybodaeth glir am gyfyngiadau ac unrhyw daliadau fod ar gael yn rhwydd, er mwyn i Barth Aer Glân weithredu'n ddidrafferth ac er hwylustod defnyddwyr y ffyrdd, preswylwyr a busnesau/diwydiant. Dylai'r wybodaeth gynnwys eglurder ynghylch beth yw ystyr dynodiad Parth Aer Glân, ac a yw cerbyd yn cydymffurfio â'r gofynion o ran mynediad, yr amserau y mae ar waith, a faint yw unrhyw daliadau ac unrhyw ddirwyon posibl am dorri rheolau. Dylai ffyrdd eraill o deithio yn y Parth Aer Glân gael eu cyfleu'n glir hefyd, a dylid rhoi cyngor i yrwyr y gall fod arnynt angen defnyddio llwybrau eraill. Dylid defnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys cyfryngau print a hysbysebion traddodiadol, yn ogystal â'r rhyngrwyd a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol.

Cwestiwn 12 – Beth yw'r ffordd orau i sicrhau bod gwybodaeth am Barth Aer Glân ar gael i'r cyhoedd er mwyn sicrhau'r hysbysiad clir a helaethaf posibl am yr hyn y bydd y cyfyngiadau ar fynediad yn ei olygu i'r bobl sy'n teithio yn yr ardal?

Mesur effeithiolrwydd

Dylid cymryd mesuriadau o ansawdd yr aer ledled ffiniau Parth Aer Glân arfaethedig cyn ei gyflwyno, a'u defnyddio i ddatblygu llinell sylfaen er mwyn mesur gwelliannau yn erbyn disgwyliadau. Dylid defnyddio data i lywio unrhyw addasiadau y bydd eu hangen dros amser wrth i'r Parth Aer Glân ddechrau gweithredu. Dylai awdurdodau lleol fodelu'r lefelau newid ymddygiad a ddisgwylir dros amser, a sicrhau bod y seilwaith ar gael i gefnogi hyn.

Cwestiwn 13 – Oes gennych chi unrhyw farn ynghylch sut y dylid mesur effaith/llwyddiant Parth Aer Glân, a sut y dylid defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu Parth Aer Glân lleol dros amser er mwyn sicrhau'r buddion parhaus helaethaf posibl o ran ansawdd aer?

Y Gymraeg

Cwestiwn 14 – A allai'r cyngor yn y Fframwaith drafft gael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol ar y Gymraeg, a sut allai'r ddogfen gynyddu'r cyntaf / lliniaru'r olaf?

Rhagor o sylwadau

Cwestiwn 15 – Ydych chi eisiau cyflwyno unrhyw sylwadau eraill am y Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru?

Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Llywodraeth Cymru'n gwahodd barn **erbyn 19 Mehefin 2018**. Yn benodol, hoffem gael eich sylwadau ar y cwestiynau uchod gan ddefnyddio'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ar-lein.

Gofynnwn ichi gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwch, lle bo'n bosibl, trwy gyfeirio at y paragraffau perthnasol sydd wedi'u rhifo yn y Fframwaith.

Yn ystod cyfnod paratoi'r Fframwaith drafft rydym wedi cynnal ymgynghoriadau anffurfiol gyda nifer o randdeiliaid. Er y gwnaethom nifer fawr o ddiwygiadau o ganlyniad, serch hynny byddem yn ddiolchgar i gael unrhyw sylwadau yr ydych o'r farn nad ydym wedi rhoi sylw iddynt (hyd yn oed os ydynt wedi cael eu cyflwyno o'r blaen), er mwyn iddynt gael rhagor o ystyriaeth cyn rhoi'r wedd derfynol ar y Fframwaith.

Erbyn 31 Gorffennaf 2018 byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ynghyd â fersiwn derfynol y Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru ar ein gwefan ar:

<https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>